

1797 Glaniad y Ffrancod yn Abergwaun

Cefndir Hanesyddol Ewropeaidd

Cyn 1789 Llywodraeth Frenhiniaethol yn wir oedd gan Ffrainc. Roedd poblogaeth y wlad yn cynnwys oddeutu 135,000 aelod o'r eglwys, tua 400,000 o uchelwyr a 26,000,000 o bobl eraill. Roedd gan y boblogaeth yn gyffredinol bwrpas i dorri'r monopoli ar eiddo a grym a oedd yn nwylo'r lleiafrif breintiedig. Mewn egwyddor dylai'r brenin gael ei gynghori gan y Stadau Cyffredinol a oedd yn cynnwys 300 o glerigwyr, 300 o uchelwyr a 600 o'r Drydedd Stad. Nid oedd y sefydliad yma wedi cyfarfod yn ystod y 175 o flynyddoedd rhwng 1614 a 1789 fodd bynnag.

Yn gynnar yn 1789 felly galwyd ar y Stadau Cyffredinol i ymgynull, a daeth y clerigwyr, uchelwyr a'r drydedd stad at ei gilydd gyda'r bwriad o gyflwyno cyfansoddiad ysgrifenedig i Ffrainc.

Yn gynnar yng Ngorffennaf 1789, gyda lluoedd byddin Ffrainc yn symud i fygwth Paris, ymgynullodd torfeydd enfawr gan gymryd arfau a, gan eu harwain gan rhai elfennau eraill o'r fyddin, fe gipiwyd y Bastille. Hen garchar gwag oedd hwn, ond roedd hefyd yn storfa arfau, Dyma'r digwyddiad wnaeth ddynodi cychwyn y Chwyldro Ffrengig.

Erbyn Awst 27ain 1789 cytunwyd ar "Ddatganiad lawnderau Dyn". Roedd hwn yn rhoi i bawb yr hawl i ryddid, cydraddoldeb, eiddo a diogelwch. Roedd hefyd yn ddyletswydd ar bob dinesydd i amddiffyn yr hawliau hyn iddo ef ei hun ac i eraill, rhannu mewn Llywodraeth, mewn amddiffyniad arfog o'r gymuned, a thalu trethi a hawliwyd gan y Wladwriaeth. Diddymwyd ffiwdaliaeth.

Gwrthododd y Brenin Louis XVI arwyddo a rhoi sêl ei fendith i'r diwygiadau a fyddai'n diddymu grym y Goron.

Ar Hydref 5ed ffurfiodd pobl Paris, a oedd yn arfog erbyn hyn, orymdaith o fenywod ac eraill, ac ymlwybro i Balas Versailles gyda'r bwriad o fynd â'r Brenin a'i deulu i Baris. O ganlyniad, y diwrnod canlynol, dychwelodd y brenin a'i deulu gyda'r bobl i'r ddinas a'u lletya yn y Tuileries - yn garcharorion i bob pwrpas.

Erbyn 1790 roedd y Stad wedi cymryd yr Eglwys drosodd, ynghyd â'i chyfoeth ac eiddo, ac yn darparu ar gyfer talu'r clerigwyr. Ar Fehefin 1791 cyrhaeddodd y Brenin a'r Frenhines, Louis XVI a Marie Antoinette, Varennes. Cawsant eu hymlid a'u dychwelyd i Baris yn garcharorion.

Ar Fedi 3ydd 1791 cyflwynwyd y Cyfansoddiad Ffrengig.

Ymhlith y 750 o ddirprwyon a etholwyd i'r Confensiwn Cenedlaethol oedd Thomas Paine. (Gweler isod)

Ymhlith nodau cynulliad deddfu 1791 o dan y Blaid Girondin oedd allforio'r nodau chwyldroadol, ac i ryddfrenio gwledydd Ewrop. Erbyn 1792 roedd byddinoedd Ffrainc a rhai Awstria a Phwrsia i gyd yn mynd i'r afael â gweithredoedd milwrol. Erbyn 1793 ffurfiwyd Llywodraeth y Chwyldro a oedd i barhau tan i heddwch gael ei sicrhau.

Roedd gan y Llywodraeth gyngor gweithredol bach pwerus, corff deddfwriaethol yn amddifad o arweiniad, gweinyddiaeth ganoliedig a phwerau didrugaredd i arestio'n ddiannod a dienyddio. O dan y Llywodraeth roedd pwyllgor diogelwch cyhoeddus ac ar Ebrill 6ed roedd Robespierre yn aelod o'r pwyllgor hwnnw. Erbyn Gorffennaf 10fed 1794, fodd bynnag, roedd e wedi ei ddienyddio.

Yng Ngorffennaf 1795 cefnogodd lluoedd arfog tir a môr Prydain ymosodiad ar Ffrainc gan gefnogwyr y Frenhiniaeth, a hynny ym Mae Quiberon. Glaniodd y fyddin Freningar a chawsant eu cyfarfod a'u trechu gan y Cadfridog Lazare Hoche, yn ben ar fyddin y Chwyldro. Rhwng Tachwedd 1795 a Thachwedd 1799 cafodd Ffrainc ei rheoli gan Weithrediaeth yn cynnwys 5 cyfarwyddwr- gan arwain at enwi'r cyfnod yn Lywodraeth gan y Gyfarwyddiaeth.

Erbyn Mawrth 1796 roedd Napoleon Bonaparte wedi'i benodi i reoli byddin Ffrainc yn yr Eidal.

Roedd gweithgareddau allanol Llywodraeth Ffrainc a'r Gyfarwyddiaeth yn cynnwys y canlynol:

- Ymosodiad ar Ynysoedd y Sianel 1793
- Cyrch i Fae Bantry 1796
- Cyrch i Fryste wedi'i arwain gan William Tate, 1797. Arweiniodd hyn at Laniad y Ffrancod yn Abergwaun.
- 1798 Cyrch i Iwerddon

Roedd y rhain i gyd yn ganlyniad i'r penderfyniad i orchfygu Lloegr a lledu'r Chwyldro. Erbyn 1799 roedd y Weriniaeth dan ofal Napoleon Bonaparte.

Mor gynnar â 1795 roedd Carnot, strategydd milwrol y Gyfarwyddiaeth, wedi cynllunio cyfarwyddiadau manwl ar gyfer sefydlu mudiad chwyldroadol yn Lloegr.

Erbyn 1799, ar ôl ymgyrch filwrol lwyddiannus yn yr Eidal, cafodd Bonaparte ei greu'n Unben ac yn ddiweddarach, yn Ymerawdwr, ar Ffrainc. Roedd y bygythiad o ymosodiad ar Loegr gan Ffrainc yn parhau i fod yn real iawn.

Cryfhawyd amddiffynfeydd glannau Lloegr, gyda thyrrau Martello'n ymestyn o Folkestone yn swydd Caint i Seafoed yn Sussex. Amddiffynwyd Cors Romney gan gamlas filwrol yn ymestyn am 23 milltir ar y ffin ogleddol gyda llwyfannau magnel a safleoedd amddiffyn strategol.

O 1803 tan 1805, yn Boulogne yn bennaf, bu Napoleon yn ymgynull ei lynges, llynges o 2,000 o gychod a byddin o 132,000 o ddynion. Honnir iddo ddweud "Gyda thridiau o wynt o'r dwyrain gallwn ailadrodd gorchest Gwilym Goncwerwr".

Ar Hydref 21ain 1805, fodd bynnag, llwyddodd buddugoliaeth Nelson ym Mrwydr Trafalgar i atal goresgyniad o Loegr gan luoedd Ffrainc.

Glaniad y Ffrancod yn Abergwaun

Ar Fedi 15fed 1779 cyrhaeddodd herwlong arfog o'r enw 'The Black Prince' Abergwaun, dan orchymyn y Capten Stephen Manhant gyda chriw o smyglwyr o Loegr ac Iwerddon. Mynnwyd dau beth: £500 i ddychwelyd llong fasnach o eiddo Samuel Forton a oedd wedi'i chipio, a phridwerth o £500 ar gyfer y dref. Cafodd y dref ei bonbardio gan ychydig o ergydion cannon gan fwrw rhai simneiau a tho'r eglwys. Taniodd llong smyglwyr arfog ergydion yn ôl gan yrru'r Black Prince i ffwrdd yn waglaw.

O ganlyniad cytunodd awdurdodau'r Llywodraeth i adeiladu caer i amddiffyn llongau a'r harbwr a'r dref. Felly, yn 1781 cymerodd Gwyn Vaughan, o Dŷ a Stad Trefwrddan (i'r gogledd-orllewin o Dreletert) a pherchennog fferm Parc y Morfa, brydles ar y penrhyn bach ar yr arfordir i'r dwyrain o'r harbwr at bwmpas adeiladu caer. Lleolwyd y gaer mewn safle amddiffynnol gydag adeiladau ar gyfer storio a phreswyllo. Lleolwyd wyth magnel 9 pwys yno. Ar adeg y glaniad roedd gan dri magnelwr oedrannus ofal y gaer.

Dan gyfarwyddyd y Gyfarwyddiaeth Ffrengig a gorchmynion y Cadfridog Lazare Hoche, ymadawodd pedair llong â Brest ar Chwefror 16eg 1797 yn cario 1,400 o filwyr Ffrengig. Roeddent dan orchymyn i hwylio o gwmpas Môr Udd, i fyny Môr Hafren, glanio ym Mryste, cipio Bryste, a symud ymlaen i gyfeiriad y gogledd. Os nad oedd hyn y bosibl roeddent i lanio ym Mae Ceredigion.

Seiliwyd y cynllun ar y rhagdybiaeth y byddai'r bobl gyffredin yn codi i gefnogi'r Ffrancwyr unwaith y byddent yn glanio yn Lloegr, ac y byddai cyfuniad o luoedd Ffrainc a'r boblogaeth yn gorchfygu unrhyw wrthwynebiad.

Roedd gwyntoedd anffafriol yn ei gwneud hi'n amhosib hwylio i fyny Môr Hafren ac o ganlyniad hwyliodd y sgwadron o gwmpas glannau Sir Benfro gyda'r bwriad o lanio ym Mae Ceredigion.

Brynhawn Mercher Chwefror 22ain ymddangosodd y sgwadron Ffrengig gyferbyn ag Abergwaun. Fe'i gwelwyd yn gyntaf y bore hwnnw gan y Capten Thomas Williams, Tyddewi, ac fe anfonodd hwnnw neges i Abergwaun yn dweud bod sgwadron Ffrengig yn teithio i'r cyfeiriad hwnnw. Roedd y sgwadron yn cynnwys La Vengeance a La Resistance, dwy ffrigad fawr newydd Ffrengig, y gosgorddlong La Constance, a'r lygar Vantour. Ymddangosodd un o'r llongau Ffrengig - y Vantour fwy na thebyg- tu allan i Harbwr Abergwaun a thaniododd y Gaer beth oedd,

mae'n debyg, yn ergyd wag. Achosodd y weithred yma i'r llong Ffrengig droi yn ei hôl. O ganlyniad ni cheisiwyd glanio ym Mae Abergwaun ac yng Ngharreg Wastad, dwy filltir i'r Gorllewin o Abergwaun y bu'r glaniad.

Mae sïon hanesyddol yn awgrymu mai dim ond tri rownd o getris oedd gan y gaer. Ond mae gan rownd lyngesol 9 taniad, felly byddai tair magnel yn gallu tanio cyfanswm o 27 o belenni magnel. Mae'n debyg mai 600-800 llath fyddai pellter cyrhaeddiad y gynnuau 9 pwys. Roedd gan y llongau Ffrengig 28 o gynnuau 18 pwys a 12 o gynnuau 18 pwys ar bob ffrigid. Mae'n bosibl y byddai cyrhaeddiad gynnuau'r Ffrancwyr yn fwy ond byddai cyfanswm eu grym tanio, petasai wedi ei weithredu yn erbyn y gaer, wedi trechu'r amddiffynfeydd. Heddiw mae llwybr cyhoeddus yn arwain o'r maes parcio sydd ar ben y bryn sy'n arwain at Gwm Abergwaun at safle'r Gaer, lle mae rhai magnelau yn eu lle ynghyd ag olion rhai o adeiladau'r gaer.

Ar y ffordd i Abergwaun cipiwyd y slŵp Britannia a'i suddo, aethpwyd â'r criw a'r meistr, John Owen, ar fwrdd y llongau Ffrengig.

Yn hytrach na cheisio glanio ym Mae Abergwaun neu draeth Wdig, angorodd y llynges fach Ffrengig oddiar trwyn Carreg Wastad, tua 2 filltir o'r fynedfa i Fae Abergwaun. Yno fe ddadlwythwyd eu lluoedd, eu storau, eu bwledi a ffrwydrion ayb a martsiodd y lluoedd i'r tir gan gyrraedd fferm Trehywel. Mae'n debyg i'r rhan fwyaf o hyn gael ai gyflawni yn y tywyllwch. Yn y man a ddewiswyd ar gyfer glanio a dadlwytho nid oes clogwyni serth, dim ond llethrau glaswelltog yn ymestyn i lawr at y creigiau ar lan y môr. Mae'n rhaid, fodd bynnag, ei bod yn weithred anodd o ystyried y cychod bychain a'r tywyllwch.

Roedd y lluoedd Ffrengig yn cynnwys y canlynol o ran dynion a llongau:

Dwy ffrigid Ffrengig La Vengeance a La Resistance gyda 28 o gynnuau 18 pwys yr un a 12 o gynau 8 pwys; Constance gyda 24 o gynnuau, a lygar gyda 14 o gynnuau. Yn ogystal â'r criw roedd y pedair llong yn cario 1,400 milwr - yn cynnwys 400 o'r Legion Noire a thua 1,000 o rai eraill, Deuai llawer o'r rhai eraill o garchardai a lleoliadau eraill gyda bach iawn o hyfforddiant milwrol.

Roedd y lluoedd dan orchymyn y Cadfridog William Tate, milwr o dras Wyddelig a oedd wedi byw yn nhrefedigaethau America a brwydro yn erbyn lluoedd a swyddogion Prydeinig, a'r swyddogion Le Brunn (y dirprwy) a'r lefftenantiaid Barry St Leger, Robert Morrison a Nicholas Tyrrel, pob un yn enedigol o Iwerddon. Yn ddiweddarach dihangodd Barry St Leger o gastell Porchester.

Cofnodwyd eu bod, wrth lanio yn y lleoliad yma, wedi dadlwytho 47 barrel o bowdwr gwn, 13 bocs o grenadau a 2,000 o arfau eraill, yn cynnwys mysgedau, cytlasau ayb a'u cludo o'r llongau i'w pencadlys yn fferm Trehywel, tua milltir o'r man glanio ac, ar yr adeg yna yn eiddo i, ac yn neiliadaeth, John Mortimer,

Ar ôl treulio noson yn yr awyr agored, nos Iau Chwefror 23ain, sleifiodd rhai o'r milwyr i mewn i'r wlad gan feddiannu Garnwnda a Charn Gelli, yn edrych allan dros Fae Abergwaun, Wdig a'r fro. Mae na sôn bod rhai o'r lluoedd Ffrengig wedi cyrraedd mor bell ag ardal Manorowen ar y ffordd yn arwain o Wdig i Dyddewi, ac roeddent yn bendant wedi cuddio, yn barod i ymosod ar lluoedd Prydain, ar y ffordd fach rhwng Wdig a Charn Gelli.

Aeth y mwyafrif o'r Ffrancwyr ati i chwilio am gyflenwad o fwyd ar y ffermydd cyfagos ar benrhyn Pencaer. Mae cofnodion hanesyddol yn dangos eu bod wedi ysbeilio rhwng 40 a 50 o ffermydd, bythynnod a thai wrth iddynt chwilio am fwyd. Yn ogystal â bwyd, daethant o hyd i gyflenwadau sylweddol o gwrw, gwin a gwirodydd. O ganlyniad, erbyn prynhawn dydd Iau Chwefror 23ain roedd y llu milwrol mewn cyflwr afreolus gyda nifer fawr yn feddw ac yn gwrthod ufuddhau i'w swyddogion.

Adeg bore dydd Iau Chwefror 23ain yr unig lluoedd Prydeinig ar gyfyl Abergwaun oedd Amddiffynwyr Abergwaun (y Fishguard Fencibles) mewn dwy adran, Abergwaun a Threfdraeth, tua 200 o ddynion a oedd yn ymgynnull y bore hwnnw.

Y pencadfridog ar gyfer gorllewin Cymru oedd yr Arglwydd Milford o Gastell Pictwn yn ei swyddogaeth fel Arglwydd Raglaw ond erbyn y bore dydd Iau roedd wedi dirprwyo awdurdod i John Campbell, yr Arglwydd Cawdor o Ystafbwl.

Ers 1792 roedd Cawdor eisoes wedi trefnu Cwmni Iwmyn gyda rhyw 43 o farchfilwyr a ddaeth ynghyd ar y bore dydd Iau a martsio i gyfeiriad Abergwaun. Yn Hwlfordd y bore hwnnw hefyd, yr oedd yr is-gyrnol Colby, milwr parhaol gyda 100 o filwyr milisia o Geredigion. Roedd lluoedd pellach yn cynnwys Gwirfoddolwyr y Capten Ackland, 93 mewn nifer, Amddiffynwyr Abergwaun yng ngofal yr is-gyrnol Knox – 191 mewn nifer, parti'r llynges a 2 fagnet – 148, 24 swyddog ac eraill.

Yn ogystal â hyn, yn ystod y dydd fe ddaeth 150 o forwyr gyda 8 o gynau 9 pwys o Aberdaugleddau i Hwlfordd ac ymuno â'r lluoedd oedd yn ymdeithio i Abergwaun. Mae'n debyg fod cyfanswm y lluoedd Prydeinig yn agos at 600 yn mynd yn eu blaenau gydag 8 magnet, a rhai ohonynt yn marchogaeth.

Yn ystod y bore penderfynnodd Cynol Knox, ar ôl derbyn newyddion am gryfder y lluoedd - yn eu gorniferu gan o leiaf 4 i 1 – i dynnu yn ôl o Abergwaun a chyfarfod â'r lluoedd oedd yn symud tuag Abergwaun dan gyfarwyddyd yr Arglwydd Cawdor rhywle i'r de o Dreletert tua 7-8 milltir o Abergwaun. Aeth y lluoedd lleol yn eu blaen i gyfeiriad Abergwaun gan gyrraedd tua 4.00yp.

Digwyddiadau'r Glaniad a'r Ildiad.

Yn hwyr brynghawn ar y dydd Iau bu ychydig o ysgarmesau rhwng y Ffrancwyr a'r lluoedd lleol ond ni fu brwydro sylweddol. Roedd y mwyafrif o'r lluoedd Ffrengig yn

hollol analluog i weithredu'n uniongyrchol ac yn gwrthod ufuddhau gorchmynion eu swyddogion.

Erbyn hwyr brynhawn roedd y llynges Ffrengig dan gyfarwyddyd y Comodor Castagnier wedi ymadael â'r ardal gan nad oeddent eisiau brwydro yn erbyn, na chael eu cipio gan, llynges Prydain.

Gyda'r nos penderfynodd Tate y byddai'n well ildio i awdurdodau Prydain gan na fedrai rheoli ei luoedd. O ganlyniad cynhaliwyd trafodaethau ac yn hwyr y nos cytunwyd ar yr ildiad. Yn ôl yr hanes, y bore canlynol ymwelodd yr Arglwydd Cawdor â gweryll y Ffrancwyr a chadarnhawyd cytundebau'r ildiad, ond ni ellir canfod copi o'r ddogfen heddiw.

Cytunwyd y byddai lluoedd Ffrainc yn ymadael â'u gweryll ganol dydd a martsio i draeth Wdig, lle byddent yn ildio'u harfau, cyn eu dwyn i Hwlfordd mewn caethiwed.

Credir i'r arwres leol, Jemeima Niclas fynd o Abergwaun i benrhyn Pencaer rhywbryd ar y prynhawn lau wedi'i harfogi â phicwarch a ddefnyddiodd i ddal deuddeg o Ffrancwyr gan ddod â nhw nôl i Abergwaun lle'u cadwyd nhw mewn caethiwed.

Yn gynnar ar brynhawn dydd Gwener Chwefror 24ain, martsiodd y llu Ffrengig o fferm Trehywel i Wdig, gan sefyll mewn rhesi ar y traeth ac ildio'u harfau. Roedd y lluoedd Prydeinig a oedd yn eu gwrthwynebu nid yn unig ar draeth Wdig ond hefyd yn yr ardaloedd cyfagos gan gymryd rheolaeth dros y lluoedd Ffrengig a'u martsio i Hwlfordd. Yno cawsant eu carcharu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys eglwys y Santes Fair, cyn eu symud i garchardai eraill, yn ne Lloegr yn bennaf.

Ym mhen amser, yn 1798, daeth Llywodraeth Prydain a Ffrainc i gytundeb ar gyfnewid carcharorion ac o ganlyniad dychwelwyd i Ffrainc y rhan fwyaf o'r milwyr a swyddogion Ffrengig a gymerodd rhan yn y glaniad.

Ymysg y traddodiadau a straeon yn gysylltiedig â'r glaniad ceir y rhan a chwaraewyd o bosib gan y gwragedd lleol. Yn eu clogynnau cochion cawsant eu camgymryd am filwyr Prydeinig rheolaidd. Mae'r stori wedi cael cryn sylw ar hyd y blynyddoedd ond bach iawn o dystiolaeth sydd ei fod wedi digwydd mewn gwirionedd. Canlyniad arall i'r glaniad oedd problemau ariannol i Lywodraeth Prydain yn dilyn y galw mawr gan gwsmeriaid i godi aur o Fanc Lloegr. Penderfynwyd yn gyflym iawn i rwystro codiannau pellach a sefydlu system papur ar gyfer taliadau, wedi'i warantu gan Fanc Lloegr.

Hyn yn sicr oedd cychwyn y system fodern o dalu gyda siec a ddaeth yn gyffredin yn ddiweddarach. Dim ond yn 1823 y gwnaeth Fanc Lloegr ganiatau tynnu darnau aur o'r banc unwaith eto.

Canlyniad pellach i'r glaniad oedd arestio dau ddyn - Samuel Griffith o fferm Casbwnsh, Solfach a John Reed a Thomas John, wedi eu cyhuddo o frad. Mae'n debyg

eu bod wedi ymweld â'r gwersyll Ffrengig ar ddydd Iau Chwefror 23ain. Cafodd Griffith a John eu traddodi i garchar i aros am dreial yn Hwlfordd- ni chafodd y treial ei gynnal tan fis Medi 1797. Roedd tystiolaeth yr erlyniad yn dibynnu ar fanylion gan garcharorion Ffrengig yn tystio eu bod wedi gweld neu adnabod y diffynyddion yn y gwersyll Ffrengig. Cyn y treial, fodd bynnag, newidiodd y tystion Ffrengig eu stori ac o ganlyniad rhoddwyd y gorau i'r treial ond roedd dau ddyn di-euog wedi treulio chwe mis dan glo yn Hwlfordd.

Nodiadau pellach

Thomas Paine

Mab i Grynwr a oedd yn wneuthurwr coredau o Thetford yn Norfolk oedd Thomas Paine. Ar ôl bywyd cynnar caled ac anodd fel morwr, athro a swyddog tollau, a marwolaeth ei wraig gyntaf, ymfudodd i America yn 1774. Roedd ganddo gydymdeimlad gydol oes gyda thlodion ac anffodusion ac yn credu yn y Llywodraeth Weriniaethol. Yn nhrefedigaethau America daeth yn olygydd ar gylchrawn Pennsylvania, gan ysgrifennu llawer o erthyglau a phamffledi yn cynnwys:

- Common Sense (yn cefnogi annibyniaeth i America),
- The Crisis and Public Good (yn galw am gynulliad cenedlaethol),
- Essays to Rhode Ireland,
- Dissertations on the Bank (yn atodi arian papur),
- Prospects on the Rubicon (yn atodi polisi bach William Pitt)
- Yn 1791 ymatebodd Paine i 'The Reflections on the Revolution in France' gan Edmund Burke mewn cyhoeddiad o'r enw 'The Rights of Man' gydag ail rhan yn cael ei gyhoeddi y flwyddyn ganlynol.

Yn y cyfnod 1787 i 1802 yr oedd Paine yn Lloegr a Ffrainc. Cafodd ei bamffledi eu dosbarthu'n eang gan roi coel i fodolaeth mudiad chwyldroadol yn Lloegr. Oherwydd y bygythiad o chwyldro, achosodd William Pitt, y Prif Weinidog, i Paine gael ei gyhuddo o frad. Cyn y treial fodd bynnag fe ddihangodd i Ffrainc ac yno yn 1792 cafodd ei wneud yn aelod o'r Cynulliad Ffrengig, yn un o 1,750 o ddirprwyon. Yn Ffrainc yn 1793 cafodd ei arestio ar amheuaeth o dueddiadau brenhingar a'i garcharu tan Dachwedd 1794. Parhaodd i ysgrifennu a chyhoeddi ac i ddadlau y dylai Llywodraeth fod yn asiant llesol gyda rhaglen ddyngarol, bositif.

Defnyddiodd Thomas Jefferson a ddaeth yn Arlywydd America yn 1800 'Rights of Man' Paine i gefnogi ei ethol. Bu farw Paine yn ninas Efrog Newydd ar Fehefin 8fed 1809 ac yn 1819 cludwyd ei weddillion yn ôl i Loegr. Methodd a throi Lloegr o fod yn frenhiniaeth i fod yn weriniaeth ond heb amheuaeth cafodd ei waith ysgrifenedig ei ddarllen yn eang gan achosi trafodaeth frwd a dylanwadu ar ddiwygiadau gwleidyddol y dyfodol yn cynnwys efallai Mesur Diwygio 1832 yn Lloegr.

Napoleon Bonaparte

Erbyn 1799 ar ôl ymgyrch filwrol lwyddiannus yn yr Eidal cafodd Bonaparte ei greu'n Unben ar Ffrainc ac yn ddiweddarach, yn Ymerawdr. Roedd y bygythiad o ymosodiad ar Loegr gan Ffrainc yn parhau i fod yn real iawn.

Cryfhawyd amddifynfeydd glannau Lloegr gyda thyrrau Martello'n ymestyn o Folkestone yn swydd Caint i Seafoed yn Sussex. Ar y ffin gyda'r tir mawr amddiffynwyd Cors Romney gan gamlas filwrol yn ymestyn am 23 milltir ar ei ffin ogleddol gyda llwyfannau magnel a safleoedd amddiffyn strategol.

O 1803 tan 1805, bu Napoleon ym Moulogne yn bennaf, yn ymgynull ei lynges, lynges o 2.000 o gychod a 132,000 o ddynion. Honnir iddo ddweud "Gyda thridiau o wynt o'r dwyrain gallwn ailadrodd gorchest Gwilym Goncwerwr".

Fodd bynnag, ar Hydref 21ain 1805 llwyddodd buddugoliaeth Nelson ym Mrwydr Trafalgar i atal goresgyniad o Loegr gan luoedd Ffrainc.